

# BETH HOFFECH CHI WELD YN NEWID YN SYSTEM FWYD DINAS RANBARTH CAERDYDD?



## O'r Fferm i'r Fforc: Cynulliad y Werin ar ddyfodol bwyd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd

## CYFLWYNIAD

**Ar 7 Tachwedd 2020, daeth bron i 70 o bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghyd mewn modd rhithwir i ddychmygu ar y cyd ddyfodol bwyd yn yr ardal. Fel rhan o Ŵyl Gwyddorau Cymdeithasol 2020 y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, trefnwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd a Bwyd Caerdydd.**

Adeiladodd y digwyddiad ar-lein ar sawl Cynulliad y Werin tebyg ar fwyd a ffermio a gynhaliwyd ledled Cymru ers dechrau'r cyfnod clo.

Roedd croeso i bobl o bob rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ymuno â'r drafodaeth. Mae'r ardaloedd sy'n rhan o'r rhanbarth yn cynnwys y deg awdurdod lleol a ganlyn: Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg.

Gan ymateb i alwadau am gyfranogiad y cyhoedd, roedd y digwyddiad yn anelu at greu man ar gyfer deialog cyhoeddus ar ddyfodol ein systemau bwyd yn seiliedig ar y cwestiwn:

***Beth yr hoffech ei weld yn newid yn system fwyd prifddinas-ranbarth Caerdydd erbyn 2040 a beth yw'r prif heriau?***

Cytunodd y grwpiau ar ddau neu dri o newidiadau yr hoffent eu gweld ac ar un her sy'n llesteirio unrhyw newid.

**Yma, rydym yn cyflwyno'r themâu a'r cynigion allweddol y cytunodd pobl eu bod am eu gweld yn system fwyd y rhanbarth yn y dyfodol:**

## CYNHYRCHU BWYD YN LLEOL

**Rydym am weld mwy o fwyd yn cael ei gynhyrchu mewn modd cynaliadwy o fewn ein rhanbarth. Byddai hyn yn golygu dod ag arferion ffermio sy'n diraddio'r pridd i ben a chefnogi arferion ffermio sy'n meithrin y pridd.**

Trafododd nifer o grwpiau trafod y Cynulliad bwysigrwydd cynhyrchu bwyd yn Mhrifdddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd sy'n cael ei werthu o fewn y rhanbarth. Dylid cynhyrchu'r bwyd mewn modd cynaliadwy, gan ddefnyddio arferion sy'n gwarchod a meithrin iechyd y pridd. Dylid darparu mwy o diroedd dan berchnogaeth y cyngor a'r gymuned i gefnogi'r rheini sy'n dymuno tyfu bwyd. Dylid



gwneud tyfu bwyd yn ddeniadol gyda chyflogau byw ar gyfer tyfwyr a hyrwyddwyr bwyd. Dylid gwerthu'r bwyd drwy rwydwaith cryfach o fwytai, marchnadoedd bob dydd, grwpiau cydweithredol ac ysgolion. Gall arferion caffael gefnogi hyn.



## ECONOMÏAU BWYD RHANBARTHOL

**Rydym am adeiladu a chryfhau economïau bwyd rhanbarthol. Mae angen dulliau mwy cydweithredol o weithio o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ymysg cynhyrchwyr a defnyddwyr ar gyfer hyn.**

Roedd y Cynulliad am weld cadwyni cyflenwi byrrach yn ogystal â thwf economïau bwyd rhanbarthol yn cynnwys cyfranogwyr amrywiol yn tyfu, dosbarthu a masnachu mewn bwyd. Roedd nifer yn teimlo bod angen systemau masnachu sy'n trosglwyddo gwir gostau bwyd (gan gynnwys o ran yr amgylchedd ac iechyd), ac annog arferion ffermio adferol a chosbi rhai sy'n cael effaith ddirywiol. Roedd consensws ynghylch

yr angen am ragor o gyfleoedd i ddefnyddwyr gael mynediad at gynnyrch fforddiadwy, iach, rhanbarthol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - o'r marchnadoedd ffermwyr, yr hybiau bwyd i siopau cornel 'iach', gydag awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol drwy ddarparu mannau gwerthu fforddiadwy. Cydnabuwyd dulliau cydweithredol o weithio fel ffyrdd i gynhyrchwyr, proseswyr a masnachwyr graddfa fach a chanolig yn y rhanbarth gydweithio i rannu'r costau â'r marchnadoedd.



## ADDYSG

**Rydym am weld pobl yn cael eu haddysgu ynghylch tyfu, coginio a maeth ar bob lefel addysgol yn ogystal ag o fewn ein cymunedau.**

Byddai hyn yn golygu bod tyfu, maeth a choginio yn cael eu cydnabod fel sgiliau bywyd hanfodol a'u bod yn cael eu cyflwyno ym mhob rhan o'r cwricwlwm, o feithrinfeydd i brifysgolion, ac yn enwedig fel rhan o'r hyfforddiant i athrawon fel bod athrawon yn fwy hyderus i ddarparu cwricwlwm sy'n seiliedig ar fwyd. Mae angen gwell mynediad at dir er mwyn ymarfer a gwella sgiliau tyfu ar gyfer y rheini sy'n dymuno tyfu bwyd fel hobi neu yrfa.

## MYNEDIAD I FANNAU AGORED

**Rydym am weld cynnydd yn y mannau gwyrdd sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio i dyfu bwyd a diogelu mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes.**

Dylai pawb gael yr un cyfle i gael mynediad at dir ar gyfer tyfu bwyd. Dylid cefnogi hyn gyda chyllid a rhannu gwybodaeth ar draws pob lefel: tyfu gartref, mannau cymunedol a chynhyrchu bwyd i'w fasnachu. Gallai rhai o'r enghreifftiau o sut y gallwn gyflawni hyn gynnwys: awdurdodau lleol yn dynodi mwy o dir ar gyfer tyfu bwyd; buddsoddiad cyhoeddus i dalu am gostau dechrau a datblygu marchnadoedd newydd drwy gaffael cyhoeddus neu fannau masnachu.



## CREU TEGWCH A CHYDRADDOLDEB

**Rydym am roi diwedd ar ansicrwydd o ran y cyflenwad bwyd a sicrhau bod bwyd maethlon ac iach ar gael i bawb.**

Roedd y cyfranogwyr am weld ansicrwydd o ran y cyflenwad bwyd yn dod i ben drwy amryw o ffyrdd, gan gynnwys bwyd lleol sy'n fwy hygyrch a fforddiadwy neu fodelau masnachu sy'n cynorthwyo pobl i gael mynediad at fwydydd iach, er enghraifft 'siopau cornel iach' lle y telir cymhorthdal ar gyfer llysiau a ffrwythau. Awgrymodd y Cynulliad y dylai'r ffocws fod ar gyfiawnder cymdeithasol a systemau bwyd tecach - gan gysylltu tlodi bwyd â mudiadau gwrthdlodi ehangach, fel cyfiawnder llafur neu gyfiawnder lles.






## NEWID WEDI'I ARWAIN GAN Y GYMUNED

**Rydym am weld cymunedau'n cydweithio i ddylanwadu ar eu system fwyd leol.**

Mae gerddi, ceginau a marchnadoedd bwyd cymunedol yn cynnig mannau cymunedol i bobl feithrin eu brwdfrydedd, i ddangos y pwys y maent yn ei roi ar fwyd, ac i roi grym i gymunedau drefnu a dylanwadu. Drwy ddefnyddio model menter gymdeithasol, byddai'r hybiau hyn yn cadw arian yn yr economi leol a gall y bobl y maent yn eu gwasanaethu eu rheoli.

## NEWID DEDDFWRIAETHOL

**Mae angen hinsawdd wleidyddol a bantamweight cyfreithiol ffafriol i sbarduno newid ac atal arferion sy'n niweidio pobl neu'r amgylchedd. Byddai hyn yn golygu meithrin cysylltiadau rhwng gwahanol bobl a grwpiau sy'n gweithio gyda bwyd i sicrhau bod y cynlluniau'n cydweithio'n dda.**

Awgrymodd y Cynulliad ffyrdd y gellir cyflawni newidiadau drwy gyfreithiau neu bolisïau newydd gan y llywodraeth. Yr uchelgais yw cael hinsawdd wleidyddol sy'n caniatáu i newidiadau ddigwydd yn gynt, ac y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol. Roedd y dulliau deddfwriaethol a awgrymwyd yn cynnwys dyletswydd i ddiogelu mannau gwyrdd ar gyfer tyfu bwyd; rheolaethau cynllunio ar fannau sy'n gwerthu bwyd nad yw'n iach a chefnogaeth ar gyfer cymunedau i gael mynediad at fannau i dyfu a gwerthu bwyd.  Awgrymwyd y gallai trethi reoli



arferion niweidiol fel prosesau amaethyddol diwydiannol sy'n niweidio'r pridd neu sy'n dibynnu ar arferion llafur annheg. Fodd bynnag, nododd y trafodaethau ei bod yn anodd newid felly bydd angen cymorth ar bobl ochr yn ochr â'r prosesau deddfwriaethol.



## MEDDWL MEWN FFORDD GYDGYSYLLTIEDIG

**Mae angen mwy o gyfathrebu arnom drwy fforymau sy'n canolbwyntio ar fwyd a chysylltiadau gwell rhwng cynhyrchwyr, defnyddwyr, cyrff cyhoeddus a llunwyr polisïau i sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir wedi'u cydgysylltu.**

Awgrymodd y trafodaethau mai un rhwystr i wella systemau bwyd yw'r diffyg cysylltiad rhwng sefydliadau a phobl. Mae angen integreiddio gwell rhwng adrannau'r llywodraeth fel bod gweithgareddau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd. Cynigwyd fforymau sy'n canolbwyntio ar fwyd ar lefel awdurdodau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â thasgluoedd sy'n canolbwyntio ar heriau penodol.

Mae angen i'r cyfranogwyr ar wahanol gamau taith bwyd hefyd fod â chysylltiad gwell â'i gilydd, er enghraifft drwy rwydwaith sy'n cysylltu cynhyrchwyr â'i gilydd a'u cwsmeriaid. Mae cyfathrebu a chysylltiadau yn allweddol i gyflawni dull gweithredu mwy holistaidd mewn perthynas â bwyd.

## PWYNTIAU TRAFOD ERAILL

**Ni fu'n bosibl cyfleu holl gyfoeth trafodaeth y Cynulliad yn y themâu allweddol uchod. Cyfeiriwyd at heriau a chyfleoedd eraill:**

- gan gynnwys yr heriau i gynhyrchwyr bwyd lleol (e.e. sicrhau bod y symiau'n gywir ar gyfer marchnad benodol, gallu darparu cyflenwad rheolaidd);
- gwella'r system gaffael gyhoeddus a'r bwyd a ddarperir mewn carchardai, ysgolion ac ysbytai;
- ailddosbarthu bwyd gwastraff;
- newid radical i'r wythnos waith 5 niwrnod fel bod gan bobl amser i ymuno â gweithgareddau bwyd lleol a ddylai ddibynnu llai ar elusennau a chael eu harwain yn fwy gan gymunedau;
- yr angen am fwy o fwyd sy'n briodol o ran diwylliannau ac iechyd, yn enwedig y tu allan i Gaerdydd;
- sut i sicrhau bod archfarchnadoedd yn fwy atebol a chynaliadwy;
- cael gwared ar y stigma ynghylch ansicrwydd o ran y cyflenwad bwyd a phrydau ysgol am ddim;
- gwella'r amgylchiadau gweithio yn y gadwyn gyflenwi (e.e. dylai pawb dderbyn cyflog byw fel isafswm) a
- chefnogi teuluoedd ar y daith o fwydo o'r fron i ddiddyfnu.

## BETH NESAF?

Mae Bwyd Caerdydd yn datblygu gweledigaeth a chynllun bwyd iach a chynaliadwy ar gyfer y ddinas, sy'n anelu at gael ei gydnabod yn un o'r dinasoedd mwyaf cynaliadwy yn y DU. Mae Bwyd Caerdydd yn gweithio i sicrhau bod hyn yn cael ei gynhyrchu ar y cyd â phobl yn y ddinas ac o'i hamgylch – dylai pawb gael y cyfle i'w hysbysu. Yn wir, bydd canfyddiadau Cynulliad y Werin yn bwydo i'r strategaeth hon yn ogystal â'r sgyrsiau sy'n cael eu hwyluso gan Bwyd Caerdydd. Mae Bwyd Caerdydd hefyd yn holi barn pobl drwy arolygon yn ogystal â thrafodaethau parhaus rhwng partneriaid.

Bydd canlyniadau'r trafodaethau hyn yn bwydo i mewn i'r ymgyngoriadau yn lleol a chenedlaethol, er enghraifft drwy gyfrannu at Strategaeth Un Blaned Cyngor Caerdydd i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd.

Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio i gefnogi partneriaethau bwyd lleol newydd mewn amrywiaeth o wahanol ardaloedd awdurdodau lleol, gan gefnogi datblygiad rhwydwaith cenedlaethol o Fannau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru, er enghraifft Food Vale. Er mwyn sicrhau trafodaethau pellach, lluniwyd canllaw ar gyfer hwyluswyr fel y gall pobl ledled y Brifddinas-Ranbarth gynnal mwy o ddigwyddiadau Cynulliad y Werin yn eu hardaloedd nhw.

food Cardiff · bwyd Caerdydd · ESRC FESTIVAL OF SOCIAL SCIENCE · GŴYL GWYDDORAU CYMDEITHASOL ESRC · CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD · Sustainable Places Research Institute · Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy